**Prifysgol Aberystwyth**

**Polisi ar Wneud Addasiadau Rhesymol mewn perthynas ag Arholiadau**

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymdrechu i sicrhau bod y Brifysgol o fewn cyrraedd cymaint o fyfyrwyr ag sy'n bosibl. Gwneir hyn drwy geisio'n rhagweithiol i nodi a rhoi sylw i rwystrau posibl; drwy ddarparu cymorth addas i fyfyrwyr; a thrwy sicrhau bod pob adran academaidd a gwasanaeth yn rhoi sylw priodol i anghenion myfyrwyr anabl, rhai gyda gwahaniaethau dysgu penodol a rhai gyda phroblemau iechyd tymor hir.

1.2. Ymhlith y rhwymedigaethau a osodir ar y Brifysgol gan Ddeddfwriaeth Cydraddoldeb mae gofyn gwneud addasiadau *rhesymol,* mae hyn yn cynnwys gwneud addasiadau rhesymol i ddulliau asesu. Tra mae dyletswydd ar ddarparwr addysg i ddiwygio safon cymhwysedd, mae gofyn iddo ystyried a ellir gwneud addasiad rhesymol neu beidio i ryw agwedd o'r broses y mae'n ei defnyddio i asesu safon cymhwysedd.

## 2. Pwrpas

2.1. Lluniwyd y polisi hwn er mwyn:

2.1.1. Cadarnhau ymateb y Brifysgol i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer arholiadau i fyfyrwyr anabl, y rhai gyda gwahaniaethau dysgu penodol a'r rhai gyda phroblemau iechyd tymor hir;

2.1.2. Sicrhau triniaeth a chysondeb cydradd i bob grŵp o fyfyrwyr a chynlluniau gradd;

2.1.3. Cymryd i ystyriaeth oblygiadau adnoddau a materion ymarferol wrth wneud addasiadau rhesymol ar gyfer arholiadau;

2.1.4. Sicrhau bod ystyriaeth ddyledus yn cael ei roi i ddyletswyddau'r Brifysgol fel y'u pennwyd gan y gyfraith, gofynion cyrff proffesiynol yn ogystal â thrylwyredd academaidd;

2.1.5. Galluogi bod myfyrwyr anabl a rhai gyda gwahaniaethau dysgu penodol neu broblemau iechyd hirdymor yn gallu cymryd rhan ar sail gyfartal â'u cyd-fyfyrwyr nad ydynt yn anabl i fodloni canlyniadau dysgu'r cwrs.

## 3. Cwmpas

3.1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob cwrs gradd, gan gynnwys cyrsiau i israddedigion ac i ôl-raddedigion a chyrsiau dysgu o bell. Nid newid diben yr arholiad ond newid ei ffurf yw bwriad y polisi hwn. Nid rhoi mantais academaidd i unrhyw unigolyn yw'r bwriad chwaith.

3.2. Lle y gwneir addasiadau, a thrwy hynny sicrhau bod pob myfyriwr yn cael ei asesu ar sail gyfartal â'i gyfoedion, ni fydd fel rheol unrhyw ofyn i gymryd sylw pellach o anghenion myfyriwr wrth farcio papurau.

3.3. Er bod y polisi hwn yn canolbwyntio ar wneud addasiadau rhesymol ar gyfer arholiadau, efallai y bydd angen ystyried addasiadau rhesymol ar gyfer mathau eraill o asesu (h.y. cyflwyniadau, asesiadau ymarferol)

3.4. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod y Brifysgol yn bodloni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol i fyfyrwyr anabl. Mae arfer da yn y sector yn cydnabod y gellir gwneud addasiadau rhesymol hefyd, gyda thystiolaeth briodol, i fyfyrwyr â nodweddion gwarchodedig eraill h.y. mamolaeth, beichiogrwydd a defodau crefyddol.

## 4. Amserlenni

4.1. Cyfrifoldeb myfyrwyr unigol yw tynnu sylw'r Brifysgol at eu hanghenion a hynny ar y cyfle cyntaf posibl: cyn ymuno â'r Brifysgol, wrth gofrestru am y tro cyntaf, neu yn ddiweddarach pan fydd galw neu y bydd newidiadau'n digwydd, a dim llai na phum wythnos cyn yr arholiad os oes modd.

4.2. Mae'r Brifysgol yn gwarantu y bydd yn gwneud addasiadau rhesymol i arholiadau pan fydd myfyrwyr wedi mynegi eu hanghenion i'r Brifysgol ac wedi darparu'r ddogfennaeth angenrheidiol yn unol â'r amserlen uchod. Rhaid i addasiadau fod yn rhesymol yn unol â gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb ac yn ymarferol i'w gweithredu yn yr amser sydd ar gael.

4.3. Pan dderbynnir cais yn hwyrach na phum wythnos cyn arholiad y myfyriwr bydd y Brifysgol yn ymdrechu i wneud addasiadau yn dibynnu ar natur y cais ac ar ystyriaethau ymarferoldeb ei weithredu.

4.4. Ni fydd yn bosibl fel rheol i'r Brifysgol gyflawni ceisiadau a dderbynnir lai na phum diwrnod gwaith cyn yr arholiad.

4.5. Mewn achosion lle nad yw'n ymarferol i wneud addasiadau yn yr amser sydd ar gael neu pan dderbynir ceisiadau lai na phum diwrnod gwaith cyn yr arholiad, ni fydd yn bosibl fel rheol i gyflawni addasiadau a dichon y bydd yn rhaid i'r myfyriwr sefyll yr arholiad heb unrhyw addasiad. O dan amgylchiadau o'r fath gall y myfyriwr gyflwyno Ffurflen Amgylchiadau Arbennig i Gofrestrydd y Gyfadran a bydd y Bwrdd Arholi yn ystyried gadael i'r myfyriwr sefyll yr arholiad fel cynnig cyntaf yn nes ymlaen neu yn rhoi ystyriaeth arall i gynnydd y myfyriwr yn y dyfodol.

## 5. Cymeradwyo a Chadarnhau Ceisiadau

5.1. Rhaid i bob cais am addasiad yn yr arholiadau gael ei gyflwyno drwy'r Ymgynghorydd Hygyrchedd yn y Gwasanaethau Myfyrwyr. Bydd yr Ymgynghorwyr Hygyrchedd yn cysylltu â'r adrannau academaidd a thîm Cofrestrfa'r Gyfadran i gadarnhau'r addasiadau sydd i'w cyflawni. Unwaith y bydd trefniadau wedi eu cadarnhau byddant yn cael eu cofnodi ar AStRA (System Cofnodion a Derbyn Myfyrwyr Aberystwyth).

5.2. Dim ond yr addasiadau sydd wedi eu cadarnhau ar AStRA fydd yn cael eu gweithredu.

**6. Parhad Trefniadau**

6.1. Dim ond unwaith y bydd gofyn i fyfyrwyr gyflwyno cais am addasiadau rhesymol. Unwaith y byddant wedi eu cymeradwyo, bydd yr un addasiadau rhesymol yn parhau hyd ddiwedd eu cwrs, oni bai y bydd gofyn newid eu cymorth, mai addasiad dros dro ydoedd neu o ganlyniad i newidiadau Academaidd/Cofrestrfa i weithdrefnau asesu. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw hysbysu'r Brifysgol am unrhyw newid ar y gofynion. Fodd bynnag, bydd y Gwasanaeth Hygyrchedd yn cydlynu adolygiad blynyddol a arweinir gan fyfyrwyr o addasiadau arholiad pob myfyriwr (yn achos myfyrwyr anabl a myfyrwyr gyda gwahaniaethau dysgu penodol neu broblemau iechyd hirdymor) er mwyn cadarnhau a oes angen newid y trefniadau mewn unrhyw ffordd.

**7. Tystiolaeth**

7.1. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer trefniadau arholiad unigol, byddai'n well pe bai myfyrwyr yn darparu tystiolaeth o anabledd, gwahaniaeth dysgu penodol neu broblem iechyd hirdymor neu sylweddol. Rhaid i bob tystiolaeth gael ei darparu yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wrthod tystiolaeth y bydd yn ei hystyried yn annerbyniol/anghyflawn a gallant ofyn i'r myfyriwr/y dystiolaeth gael ei gyfeirio/chyfeirio at y Wasanaeth Lles y Myfyrwyr neu'r Gwasanaethau Hygyrchedd a Chynhwysiant i'w hystyried ymhellach.

7.2. Bernir bod y dystiolaeth ganlynol yn dderbyniol:

7.3. *Yn achos myfyrwyr gyda gwahaniaethau dysgu penodol*

7.3.1. Adroddiad Seicolegydd Addysg neu gyfwerth

neu

7.3.2. Adroddiad Asesiad Anghenion cyfredol oddi wrth Ganolfan Access drwyddedig

7.3.3. Gallai tystiolaeth ddiweddar (o fewn 24 mis) gan swyddfa arholiadau ysgol/coleg y myfyriwr yn cadarnhau trefniadau'r arholiadau (h.y. Ffurflen JCQ 8 wedi'i llenwi) gael ei hystyried ar gyfer parhau â'r cymorth yn yr arholiadau.

7.4. *Yn achos myfyrwyr gyda phroblemau iechyd neu anabledd hirdymor*

7.4.1. Llythyr oddi wrth feddyg teulu neu Ganolfan Iechyd Myfyrwyr y Brifysgol yn cadarnhau natur y broblem iechyd/anabledd ac yn amlinellu'r effaith botensial ar allu'r myfyriwr i ymgymryd â'r dull arferol o asesu;

7.4.2. neu

7.4.3. Adroddiad Asesiad Anghenion cyfredol oddi wrth Ganolfan Access yn cadarnhau'r effaith debygol ar allu'r myfyriwr i ymgymryd â'r dull arferol o asesu.

**8. Pan nad oes tystiolaeth ysgrifenedig ar gael**

8.1. Caiff Trefniadau Unigol ar gyfer Arholiad eu rheoli orau pan fydd gan Ymgynghorwyr Hygyrchedd fynediad at argymhellion manwl gan ymarferydd meddygol neu Adroddiad Asesu Anghenion. Pwrpas hyn yw sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu diogelu ac nad oes mantais yn cael ei roi i unrhyw unigolyn. Rhaid nodi y gall sicrhau'r dystiolaeth feddygol angenrheidiol neu dystiolaeth arall gymryd peth amser ac felly bydd y Brifysgol yn ystyried mathau eraill o dystiolaeth sy'n ymwneud ag anabledd neu gyflwr iechyd myfyriwr, gan gynnwys Gwybodaeth Adeiladol.

8.2. Mewn achosion lle mae tystiolaeth ar y ffordd ond nad yw'n gyflawn neu na ellir ei chyflwyno erbyn y dyddiad penodedig, gwneir pob ymdrech i wneud trefniadau priodol ar gyfer addasiadau rhesymol. Fodd bynnag, lle mae tystiolaeth yn ohiriedig neu lle mae cais am addasiadau yn dod i law/yn cael ei derbyn ar ôl y dyddiad penodedig, ni all y Brifysgol warantu y bydd yn cyflawni trefniadau ac y gall y bydd gofyn i'r myfyriwr sefyll yr arholiad heb unrhyw addasiad. O dan amgylchiadau o'r fath gall y myfyriwr gyflwyno Ffurflen Amgylchiadau Arbennig i Gofrestrfa'r Gyfadran neu'r Adran Academaidd yn egluro effaith ei amhariad/hamhariad neu anhawster dysgu ar ei gyraeddiadau/chyraeddiadau.

**9. Enghreifftiau o addasiadau y gellir eu darparu**

9.1. Yn amodol ar anghenion unigol, darpariaeth tystiolaeth ddogfennol ac ymwybyddiaeth o ganlyniadau dysgu, gall un neu fwy o'r addasiadau canlynol fod yn rhai addas ar gyfer arholiadau:

9.1.1. Darparu dull amgen o asesu (e.e. arholiad llafar/traethawd estynedig)
9.1.2. Darparu Amser Ychwanegol
9.1.3. Defnyddio ystafelloedd neu weithfannau dynodedig
9.1.4. Defnyddio technoleg gynorthwyol (yn cynnwys cyfrifiadur personol ond nid defnydd o'r rhyngrwyd)
9.1.5. Defnyddio gwirydd sillafu safonol ar y bar offer
9.1.6. Darparu rhywun i ysgrifennu neu ddarllen ar ran y myfyriwr
9.1.7. Papurau atodol (e.e. tudalen A4 o nodiadau ysgrifenedig)
9.1.8. Seibiant gorffwys
9.1.9. Defnyddio troshaenau lliw
9.1.10. Papurau ar ffurfiau eraill (e.e. Braille)

9.2. Nid yw'r rhestr hon yn ddihysbydd gan fod trefniadau wedi eu bwriadu i gwrdd ag anghenion unigolion. Ar ben hynny, dichon y bydd ar rai myfyrwyr angen cyfuniad o'r trefniadau.

**10. Mecanwaith Apelio**

10.1. Os cyfyd anghydfod yn ymwneud â natur y trefniadau unigol a ddarparwyd, bydd y mater yn amodol ar gymeradwyaeth y Deon perthnasol, a bydd ei benderfyniad ef yn un terfynol.

**11. Adolygu'r Trefniadau**

11.1. Bydd y Cofrestrydd Cynorthwyol (Arholiadau) yn galw panel i adolygu'r trefniadau'n gyffredinol, o leiaf unwaith y flwyddyn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Profiad Myfyrwyr.

11.2. Bydd y panel yn cynnwys y Cofrestrydd Cynorthwyol (Arholiadau); (Cadeirydd); Pennaeth Hygyrchedd a Chynhwysiant, Gwasanaethau Myfyrwyr (neu enwebai); cynrychiolwyr o naill ai'r Gwasanaeth Hygyrchedd a/neu'r Gwasanaeth Lles; a chynrychiolydd o Urdd y Myfyrwyr.